

## WILLIAMS, MORGAN (1808 - 1883), siartydd

**Enw:** Morgan Williams  
**Dyddiad geni:** 1808  
**Dyddiad marw:** 1883  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** siartydd  
**Maes gweithgaredd:** Gwrthryfelwyr; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol  
**Awdur:** Edward Ivor Williams

Ganwyd ym Merthyr Tydfil, mab Undodwr blaenllaw yn y dref honno. Daeth yn wehydd ac yn wneuthurwr gwlanenni; efe a wna i dilladau arbennig - gwasgodau i ddynion a ffedogau i ferched - a wisgid gan siartwyr Merthyr. Yr oedd yn aelod sylfaenol o'r ' Merthyr Subscription Library ' ac yn ysgrifennydd y ' Merthyr Working Men's Association ' - efe, yn ddiaw, oedd fwyaf ei dalent lenyddol ymhlith siartwyr y dref. Yr oedd yn un o'r pump a ddewiswyd i'r ' National Chartist Association ' yn 1841 a 1842, a bu yn y confensiwn yn Llundain yn 1842. Pan dorrodd y cythrwfl allan yng Nghasnewydd-ar-Wysg (fis Tachwedd 1839) digwyddodd ef fod i ffwrdd yn prynu gwasg i argraffu newyddiadur y siartwyr, *Udgorn Cymru*, a gyhoeddid ganddo ef a **David John**. Yr oedd ganddo gasgliad helaeth o lyfrau a gadawodd ran o'r casgliad i'r llyfrgell ym Merthyr. Erbyn adeg ei farwolaeth 17 Hydref 1883, yr oedd wedi bod yn gofrestridd priodasau, etc., ym Merthyr am 30 mlynedd. Y mae ysgrif ganddo ar '**Iolo Morganwg**' yn y *Red Dragon*, ii.

### Awdur

**Edward Ivor Williams**, (1885 - 1958)

### Ffynonellau

David Williams, *John Frost, A Study in Chartism* (1939), 171, 331, 334-6

*Yr Ymofynnydd*, Rhagfyr 1883

*South Wales Daily News*, 19 Hydref 1883

*Western Mail*, 18 Hydref 1883

Charles Wilkins, *The history of Merthyr Tydfil* (Merthyr Tydfil 1867), 425-6

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748862

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, E. I., (1953). WILLIAMS, MORGAN (1808 - 1883), siartydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-MOR-1808>

Prifwrdd

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government